

# Pennod 1: Crynodeb Gweithredol

## 1. Yr ymgynghoriad hwn

1.1 Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn ceisio sylwadau ar weithredu'r argymhellion yn adroddiad<sup>1</sup> yr Arglwydd Ustus (Syr Rupert) Jackson<sup>2</sup> ar gostau sefydlog y gellir eu hadennill (FRC) mewn achosion ymglyfreitha sifil yng Nghymru a Lloegr, a gyhoeddwyd ar yr 31<sup>ain</sup> o Orffennaf 2017.

1.2 Mewn ymglyfreitha sifil yng Nghymru a Lloegr, mae gan y parti sy'n ennill yr achos hawl fel arfer i adennill ei gostau gan y parti a gollodd yr achos. Fodd bynnag, bu costau cyfreithiol sifil ers tro yn rhy uchel ac yn rhy amhendiant, gan beri bod mwy o risg ynglŷn ag ymglyfreitha a bod ymglyfreitha'n llai hygyrch nag y dylai fod a bod hynny'n tanseilio mynediad at gyfiawnder. Paratôdd Syr Rupert adroddiad sylweddol<sup>3</sup> ar gostau ymglyfreitha sifil yn 2010. Gweithredwyd ei argymhellion at ei gilydd, yn cynnwys diwygiadau i gytundebau '*dim ennill, dim ffi*' yn Rhan 2 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd (LASPO) 2012<sup>4</sup>.

1.3 Mae FRC yn pennu swm yr arian y gall parti llwyddiannus ei adennill ar gamau penodol yng nghwrs ymglyfreitha, o'r ddadl ragarweiniol i'r treial ei hun. Maent yn cynorthwyo i sicrhau yr erys costau cyfreithiol yn gyfaddas a thrwy hynny'n hyrwyddo mynediad at gyfiawnder. Cyflwynwyd FRC gyntaf mewn achosion damweiniau traffig y ffordd (RTA) lle dyfernir hyd at £10,000 mewn iawndal yn 2010.

1.4. Gan fod y diwygiadau a argymhellwyd gan Syr Rupert yn ei adroddiad yn 2010 wedi cael amser i ymgadarnhau, fel y noda Syr Rupert, mae'n amserol ystyried ymestyn FRC. Ar sail ei brofiad yn y maes hwn, ar yr 11<sup>eg</sup> o Dachwedd 2016 comisiynwyd Syr Rupert gan yr Arglwydd Brif Ustus a Meistr y Rholiau i ymgymryd ag adolygiad atodol o FRC a llunio argymhellion i ymestyn y defnydd ohonynt.

1.5 Yn ei ddarlith ym mis Ionawr 2016<sup>5</sup>, dywedodd Syr Rupert y dylid cyflwyno FRC ar gyfer pob achos sifil hyd at £250,000. Yn yr adroddiad hwn, fodd bynnag, argymhellodd drefn ar gyfer achosion hyd at £100,000, gan fod rheoli costau'n gweithio'n dda ar hyn o bryd mewn achosion lle mae mwy o arian yn y fantol. Argymhellodd:

- i. Ymestyn FRC drwy'r llwybr cyflym, yn cynnwys proses newydd a grid costau ar wahân ar gyfer hawliadau colli clyw o ganlyniad i sŵn (NIHL) sy'n werth llai na £25,000.
- ii. Cyflwyno llwybr canolig newydd<sup>6</sup> a FRC cyfatebol ar gyfer hawliadau llai cymhleth o £25,000-£100,000.
- iii. Ymestyn y rheolau 'Aarhus' i bob achos adolygiad barnwrol (JR), ynghyd â rheoli costau mewn achosion JR 'trwm'.

---

<sup>1</sup> <https://www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/2017/07/fixed-recoverable-costs-supplemental-report-online-2-1.pdf>

<sup>2</sup> Ymddeolodd Syr Rupert o'r Llys Apêl ar yr 8<sup>fed</sup> o Fawrth 2018.

<sup>3</sup> <https://www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/JCO/Documents/Reports/jackson-final-report-140110.pdf>

<sup>4</sup> Cyhoeddwyd adolygiad yn dilyn gweithredu Rhan 2 y Ddeddf LASPO ar y 7<sup>fed</sup> o Chwefror 2019:

<https://www.gov.uk/government/publications/post-implementation-review-of-part-2-of-laspo>

<sup>5</sup> <https://www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/2016/01/fixecostslecture-1.pdf>

<sup>6</sup> Fel y trafodir ym mhumed bennod yr ymgynghoriad hwn, rydym yn ystyried ymarferoldeb cyflwyno llwybr newydd. Er cysondeb, cyfeirir at yr achosion hyn fel achosion canolig (y byddai FRC yn berthnasol iddynt).

- iv. Comisiynu gweithgor Cyngor Cyfiawnder Sifil (CJC) i lunio proses arbennig a threfn FRC ar gyfer achosion esgeulustod clinigol hyd at £25,000.
- v. Cynllun peilot gwirfoddol i roi cap ar gostau mewn achosion busnes ac eiddo hyd at £250,000.

1.6 Rydym eisoes wedi gweithredu ei argymhelliad ynghylch achosion esgeulustod clinigol hyd at £25,000 drwy gomisiynu adroddiad gan y CJC. Yn yr un modd, dechreuodd y cynllun peilot dwy flynedd i roi cap ar gostau mewn achosion busnes ac eiddo ym mis Ionawr 2019.

1.7 Mae'r papur ymgynghorol hwn yn ceisio sylwadau ar sut i weithredu'r cynigion a restrir yn 1.5, uchod: (i) ymestyn FRC drwy'r llwybr cyflym, (ii) ymestyn FRC i achosion llwybr canolig, a (iii) rheoli costau mewn achosion JR 'trwm'.

1.8 Mae'r llywodraeth yn cytuno gydag argymhellion Syr Rupert, gyda'r eithriadau pwysig canlynol:

- i. Rydym yn cytuno mewn egwyddor ag ymestyn FRC i'r holl achosion a argymhellir ganddo ar gyfer ei lwybr canolig bwriadedig. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod angen cyflwyno llwybr newydd, gyda'r holl gostau a chymhlethdod fyddai ynglŷn â hynny. Yn hytrach, rydym yn cynnig rhoi'r achosion canolig hyn ar lwybr cyflym estynedig, lle byddai pob achos yn destun FRC. Dylai hyn sicrhau rhagor o gysondeb a symlrwydd. Gan hynny, cyfeirir yn y ddogfen hon at 'achosion canolig' yn hytrach na llwybr canolig newydd.
- ii. Nid ydym yn cynnig ymestyn y rheolau 'Aarhus' i bob achos JR am y rhesymau a eglurir ym mhennod 6 isod.

1.9 Yn ei adroddiad yn 2010, argymhellodd Syr Rupert y dylid 'pennu'r costau y gellir eu hadennill mewn achosion llwybr cyflym': eglurodd ar ba sail y gellid gwneud hynny<sup>7</sup>. Meddai<sup>8</sup>:

*'Mae sawl mantais i bennu costau mewn achosion o ymglyfreitha lle bo'r symiau o arian sydd yn y fantol yn llai. Yn gyntaf, mae'n rhoi sicrwydd i'r partïon ynglŷn â'r costau y gallent eu hadennill pe baent yn llwyddiannus, neu'r ergyd ariannol pe baent yn aflwyddiannus. Yn ail, mae pennu costau yn osgoi proses bellach asesu costau, neu anghytundeb ynglŷn â'r costau y gellir eu hadennill, sydd hwythau'n gallu ychwanegu at gostau. Yn drydydd, mae'n sicrhau bod costau y gellir eu hadennill yn gyfaddas. Er lles y cyhoedd dylid sicrhau bod costau ymglyfreitha ar y llwybr cyflym yn gyfaddas ac yn sicr.'*

1.10 Eglurai ei adroddiad yn 2010 y posibilrwydd o ymestyn FRC y tu hwnt i'r llwybr cyflym<sup>9</sup>. Er na chyflwynwyd FRC eto y tu hwnt i achosion anafiadau personol (PI) llwybr cyflym, mae ei adroddiad yn 2017 yn cyflwyno'r achos dros wneud hynny a'r modd ar gyfer gwneud hynny. Mae'n ystyried y FRC llwybr cyflym cyfredol ym mhumed bennod ei adroddiad yn 2017 a dywed<sup>10</sup>: 'eu bod at ei gilydd yn gweithio'n ddi-fai, fel y cydnebydd llawer o'r rhai a ymatebodd i'm papur ymgynghorol diweddar. Nid wyf yn cynnig gwneud unrhyw newidiadau iddynt, oddieithr eu cynyddu yn unol â chwyddiant.'

1.11 Rydym yn cytuno â'r asesiad ac, o ystyried costau uchel parhaus ymglyfreitha sifil yn gyffredinol a mater neilltuol costau anghyfaddas mewn hawliadau eraill isel eu gwerth, ystyriwn mai iawn yw eu cymhwyso'n ehangach. Gan hynny, ein bwriad yw gweithredu

<sup>7</sup> Jackson (2010), pennod 15.

<sup>8</sup> Jackson (2010), Crynodeb Gweithredol, 2.10.

<sup>9</sup> Jackson (2017), pennod 1, 1.7.

<sup>10</sup> Jackson (2017), pennod 5, 2.4.

argymhellion (i) a (ii) a eglurir ym mhenodau 3, 4, a 5 isod. Yn gryno, golyga hyn ein bod yn ymgynghori ar y canlynol:

(i) ymestyn FRC i bob achos arall sy'n werth hyd at £25,000 mewn iawndal ar y llwybr cyflym fel yr eglurir ym mhennod 3 isod;

(ii) proses newydd a FRC ar gyfer hawliadau NIHL, fel yr eglurir ym mhennod 4 isod; a

(iii) ehangu'r llwybr cyflym i gynnwys yr achosion 'canolig' syml sydd werth rhwng £25,000 a £100,000 mewn iawndal.

1.12 Efallai y bydd achosion neilltuol lle byddir yn barnu bod cymhwyso FRC yn amhriodol neu lle byddai'n anodd gwneud hynny, ac yn y cyswllt hwn rydym yn croesawu eich sylwadau, gyda thystiolaeth gefnogol, a chyda golwg ar yr olaf yn neilltuol, byddem yn croesawu awgrymiadau ar sut i oresgyn yr anawsterau hyn.

1.13 Lluniwyd y ffigurau bwriadedig ar gyfer FRC gan Syr Rupert yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd gan Taylor Rose<sup>11</sup> (cwmni o gyfreithwyr a thwrneiod costau) a ddadansoddwyd gan yr Athro Paul Fenn<sup>12</sup>. Ymgynghorodd Syr Rupert â'i dîm o bedwar asesydd ar ddeg<sup>13</sup>, gan dynnu ar amrediad eang o safbwyntiau a phrofiad, a defnyddiodd ei brofiad helaeth ei hun wrth orffen y gwaith ar y ffigurau. Gan hynny, ystyrir fod y ffigurau wedi derbyn ystyriaeth fanwl a phriodol a bwriedir eu cyflwyno yn unol â'i argymhellion. Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau ymgynghorol, yn cynnwys tystiolaeth gefnogol.

1.14 Bydd gofyn i'r rhai yr ymgynghorir â hwy ymgyfarwyddo ag adroddiad Syr Rupert yn ei fanylder, gan na chyflwynir ond peth o'r cynnwys yma.

1.15 Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, rydym yn cyhoeddi asesiad effaith a datganiad cydraddoldeb, fel y bo effeithiau ein cynigion yn glir.

## 2. Y Camau Nesaf

2.1 Yn ddarostyngedig i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bwriedir cyflwyno'r diwygiadau hyn fel y'u heglurir yn y papur ymgynghorol hwn. Wedi eu cyflwyno byddwn yn eu hadolygu'n gyson. Ein bwriad o hyd yw ehangu'r meysydd lle rheolir costau yn y man: gallai hyn gynnwys ymestyn FRC i fathau eraill o hawliadau, yn cynnwys hawliadau uwch eu gwerth, a rheoli costau a gododd cyn y gynhadledd reoli achos a chostau gyntaf (CCMC), lle nad oedd achosion yn destun FRC fel arall.

2.2 Bydd y llywodraeth yn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad yn y man. Byddir yn ymestyn FRC drwy gyfrwng diwygiad i Reolau Trefniadaeth Sifil 1998<sup>14</sup>.

---

<sup>11</sup> Jackson (2017), pennod 3, 3.1.

<sup>12</sup> Mae'r Athro Paul Fenn, a oedd yn asesydd i adolygiadau Syr Rupert yn 2010 a 2017, yn athro emeritws yn Ysgol Fusnes Prifysgol Nottingham ac yn gynghorydd polisi ym maes costau i'r llywodraeth, y farnwriaeth a'r proffesiwn cyfreithiol. Mae Taylor Rose TTKW yn gyfreithwyr a thwrneiod costau.

<sup>13</sup> Jackson (2017), pennod 1, 2.5: cynhwysai ei aseswyr gyfreithwyr hawlwr a diffynyddion, academwyr, aelodau o'r farnwriaeth a thwrneiod costau.

<sup>14</sup> S.I. 1998/3132.

## **Cwestiynau:**

### **Pennod 3: Y Llwybr Cyflym:**

1. O ystyried bwriad y Llywodraeth i ymestyn FRC i achosion llwybr cyflym, a ydych yn cytuno â'r cynigion hyn fel y'u cyflwynir? Rydym yn awyddus i glywed eich safbwyntiau, yn cynnwys unrhyw gynigion eraill, ynghlŷn â'r canlynol:

- (i) y cynigion i roi achosion mewn Bandiau (yn cynnwys salwch yn achos gwyliau parod);
- (ii) y cynigion ar gyfer hawliadau amryfal y mae iddynt sail gyffredin;
- (iii) a ddylid (ac, os felly, sut y dylid) cryfhau'r rheolau i sicrhau (a) osgoi heriau diangen, a (b) cadw achosion o fewn y drefn FRC pan fo hynny'n addas; a
- (iv) Mae Rhan 36 yn cynnig arweiniad ynghylch ymddygiad afresymol wrth ymgyfreitha (yn cynnwys, ymysg pethau eraill, y cynigion ar gyfer codi FRC (35% i ddibenion Rhan 36, neu godi FRC heb gyfyngiad neu gostau indemniad am ymddygiad afresymol wrth ymgyfreitha), a sut i gymhell setliad cynnar.

### **Pennod 4: Colli Clyw o ganlyniad i Sŵn:**

2. O ystyried bwriad y Llywodraeth i ymestyn FRC i achosion NIHL, a ydych yn cytuno â'r cynigion hyn fel y'u cyflwynir? Rydym yn awyddus i glywed eich safbwyntiau, yn cynnwys unrhyw gynigion eraill, ynghlŷn â'r canlynol:

- (i) y broses newydd cyn ymgyfreitha a chynnwys ac eglurder y llythyrau drafft hawlio (ac ychwanegiadau) ac ymateb.
- (ii) cynnwys y cyfarwyddiadau safonol bwriadedig, a rhestru treialon rhagarweiniol ar wahân.

### **Pennod 5: Achosion Canolig:**

3. O ystyried bwriad y Llywodraeth i ymestyn FRC i achosion canolig, a ydych yn cytuno â'r cynigion hyn fel y'u cyflwynir? Rydym yn awyddus i glywed eich safbwyntiau, yn cynnwys unrhyw gynigion eraill, ynghlŷn â'r canlynol:

- (i) y bwriad i ehangu'r llwybr cyflym i gynnwys achosion canolig;
- (ii) y meini prawf a gynigir ar gyfer dyrannu achosion canolig a'r angen posibl am ragor o sicrwydd ynghlŷn â hyd a lled y llwybr;
- (iii) sut i sicrhau y dyrennir achosion yn iawn, a'r cynnig i gyflwyno cosb ariannol am herio dyraniad yn aflwyddiannus;

(iv) addasrwydd y strwythur 4 band, y posibilrwydd o gyfuno band 2 a 3, o ystyried tebygrwydd y ffigurau: os ydych chi o blaid cyfuno bandiau, byddem yn croesawu awgrymiadau ynghylch sut y dylid gwneud hynny; a

(v) yr angen posibl am ragor o sicrwydd gyda golwg ar ba achosion sy'n addas ar gyfer pob band o achosion canolig.

### **Pennod 6: Adolygiad Barnwrol:**

4. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i reoli costau mewn adolygiadau barnwrol a chyflwyno'r maen prawf 'a yw costau'r parti yn debygol o fod yn uwch na £100,000?' Os nad ydych yn cytuno, a oes gennych gynnis arall?

### **Pennod 8: Y Camau Nesaf:**

5. Rydym yn awyddus i glywed eich sylwadau ar y cynigion yn yr adroddiad hwn na chrybwyllir yn y cwestiynau blaenorol yn y ddogfen hon.

### **Pennod 9: Asesiad Effaith**

6. A oes gennych unrhyw dystiolaeth/data o blaid neu yn erbyn y cynnig, y byddech yn awyddus i'r llywodraeth ei (h)ystyried yn rhan o'r ymgynghoriad hwn?

### **Pennod 10: Datganiad Cydraddoldeb**

7. Beth, yn eich barn chi, fyddai effaith pob opsiwn a gynigir ar unigolion gyda nodweddion a warchodir? Rhwch resymau.

8. A ydych yn cytuno ein bod wedi adnabod yr amryfal effeithiau o dan bob cynnig a gyflwynir yn y papur ymgynghorol hwn? Rhwch resymau.

9. A ydych yn cytuno ein bod wedi adnabod hyd a lled yr effeithiau o dan bob un o'r cynigion hyn? Rhwch resymau a darparwch dystiolaeth fel y bo'n addas.

10. A oes dulliau o leddfu'r effeithiau nad ydym wedi eu hystyried?